

LEWIS, MORGAN JOHN (c. 1711 - 1771), neu JONES, MORGAN, emynydd, a chynghorwr Methodistiaidd

Enw: Morgan John Lewis
Dyddiad geni: c. 1711
Dyddiad marw: 1771
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: emynydd, a chynghorwr Methodistiaidd
Maes gweithgaredd: Crefydd; Barddoniaeth
Awdur: Gomer Morgan Roberts

Ganwyd c. 1711, brodor o Gwm Ebwy-fawr, Aberystroth, Mynwy. Cafodd dröedigaeth dan weinidogaeth [Howel Harris](#), c. 1738, ac ymneilltuodd o gymun Eglwys Loegr, fe ddywedir, pan waharddwyd [Daniel Rowland](#) rhag pregethu yn eglwys Aberystroth. Dechreuodd ganu emynau, a daw i'r golwg fel un o emynwyr cynnar y deffroad Methodistiaidd. Ceir emyn o waith 'Morgan Jones o Flauneu gwent' yn *Llwybur Hyffordd ir Cymru* (Mwythig, 1740). Ef ac [Edmund Williams](#), Cwm Tyleri, a gyhoeddodd *Hymnau Duwiol o Gasgliad Gwyr Eglwysig M.J. ac E.W.* (Pontyp I, 1741). Ceir emyn o'i waith hefyd yn *Sail, Dibenion, a Rheolau'r Societies* (Bryste), llyfryn o gyhoeddiad yn sasiwn Fethodistaidd, 1742. Dechreuodd bregethu gyda'r Methodistiaid, a phenodwyd ef yn gynghorwr cyhoeddus yn sasiwn Watford, 1743; yn ddiweddarach, gwnaed ef yn olygwr ar nifer o seiadau. Yr oedd yn bregethwr byw a phoblogaidd, ac yn r o ddylanwad ymhlith ei frodyr. Yr oedd yn flaenllaw gyda'r blaid a fynnai gefnu ar Eglwys Loegr. Bu'n ffafriol i [Howel Harris](#) yn yr anghydfod rhyngddo â [Daniel Rowland](#), ond ar ôl sasiwn Llanidloes, 1751, fe droes o blaid [Rowland](#). Ar gyngor [Rowland](#), fe ddywedir, yr ordeiniwyd ef yn weinidog gan y seiat yn New Inn, plwyf Pantteg, Mynwy, yn null yr Annibynwyr. Bu'r ordeiniad ar y Llungwyn, 1756, a chreuodd yr helynt gryn gyffro ar y pryd. Bu farw o dan amgylchiadau trist yn nechrau'r flwyddyn, 1771.

Awdur

Y Parchedig Gomer Morgan Roberts, (1904 - 1993)

Ffynonellau

Edmund Jones, 105-6

dyddiadur William Thomas (*Cardiff Manuscript* 4.877)

Cynnwysiad Byr o Feddyliau'r Eglwys yn New Inn, Swydd Fynwy, yr hon a ymgorffolodd wrth y drefn hon yn Neuadd Pant-teg yn y flwyddyn 1751, yn gyffelyb i'r modd eu professwyd ar ddydd urddiad ei gweinidog cyntaf, Llun y Sulgwyn 1756 at yr hyn y rhagddodwyd hanes yr eglwys yn y lle (Bryn-mawr 1851), 3-6

Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru, i, 76-7, 81-2

Methodistiaeth Cymru (1851-6), i, 448; iii, 372-6

J. Morgan Jones a W. Morgan, *Y Tadau Methodistiaidd (1895-1897)*, i, 230-2

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20738135](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.